



**Chwefror 2025**

# **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft ar gyfer De-orllewin Cymru**

**Crynodeb ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus**

## Beth yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

Paratowyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Mae'n edrych ar sut y dylid rheoli a gwella'r rhwydwaith trafndiaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe rhwng 2025 a 2030. Ar ôl ei gwblhau a'i fabwysiadu, bydd y cynllun newydd yn disodli'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd presennol a baratowyd yn 2015.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn esbonio sut y bydd polisi cenedlaethol, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, yn cael ei gyflawni yn ein rhanbarth. Wrth wneud hynny, mae'n esbonio sut y bydd y system drafnidiaeth yn cael ei gwella a'i rheoli mewn ffordd sy'n cefnogi twf economaidd, yn annog newid dulliau teithio yn hytrach na defnyddio ceir preifat, ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn cynnwys:



**Fframwaith polisi drafft** sy'n cynnwys 21 o bolisiau sy'n nodi ein huchelgais o ran trafndiaeth ar draws y rhanbarth. Bydd y polisiau hyn yn llywio'r gwaith y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r awdurdodau lleol yn ei wneud dros y pum mlynedd nesaf i ddatblygu'r rhwydwaith trafndiaeth.



**Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft** sy'n nodi rhestr gychwynnol o ymyriadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer datblygu a chyllido dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau rhanbarthol, yn ogystal â chynlluniau o fewn pob un o'r pedwar awdurdod lleol. Mae angen rhagor o waith o hyd gan yr awdurdodau lleol ar y rhestr hon o gynlluniau.



**Asesiad Effaith Integredig** sy'n edrych ar sut y bydd y cynllun trafndiaeth rhanbarthol newydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach. Mae'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Llesiant Integredig, ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

C Mae'r dogfennau hyn wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad ar ein gwefan.

**[www.cjcsouthwest.wales/2025consultation](http://www.cjcsouthwest.wales/2025consultation)**

I ddweud eich dweud, llenwch ein harolwg ar-lein erbyn hanner nos ddydd **Sul 6 Ebrill 2025**. Os hoffech chi ymateb yn ffurfiol ar ran sefydliad, gallwch chi hefyd anfon e-bost atom ni yn **[trafnidiaethrhanbarthol@abertawe.gov.uk](mailto:trafnidiaethrhanbarthol@abertawe.gov.uk)**

## Pam mae angen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd?

**Mae angen cynllun newydd i lywio sut rydyn ni'n rheoli ein rhwydwaith trafndiaeth oherwydd:**



Mae angen i'r system drafnidiaeth esblygu mewn ymateb i ofynion sy'n newid, er enghraifft mewn perthynas ag anghenion datblygu, twf economaidd a phryderon amgylcheddol.



Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni wneud cynlluniau clir ar gyfer sut y bydd amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael eu cyflawni yn y rhanbarth.



Gyda'r cynllun newydd, bydd y rhanbarth yn gallu sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth dros y pum mlynedd nesaf.



**Bydd y cynllun newydd yn:**



Helpu pawb sy'n defnyddio'r rhwydwaith trafndiaeth i ddeall lefel y gwasanaeth y gallan nhw ei ddisgwyl a'r mathau o welliannau y byddan nhw'n eu gweld dros y blynyddoedd nesaf, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.



Llywio sut y bydd y pedwar awdurdod lleol yn rheoli'r rhwydwaith trafndiaeth o ddydd i ddydd ac yn nodi'r gwelliannau y byddan nhw'n canolbwyntio arny'n nhw dros y pum mlynedd nesaf.



Egluro sut y gall cwmnïau bysiau a threnau ac eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau trafndiaeth gydweithio â'r awdurdodau lleol i sicrhau bod systemau trafndiaeth yn gydgyssylltiedig.



Helpu i nodi'r hyn y mae angen i ddatblygwyr ei wneud er mwyn i ddatblygiadau newydd fod yn dderbyniol o ran trafndiaeth.



Dangos i Lywodraeth Cymru beth yw'r blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn trafndiaeth yn y rhanbarth, a bydd yn sail i gais y rhanbarth am gyllid.

## Eich rhwydwaith, eich barn

Yn ystod haf 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar i gael rhagor o wybodaeth am flaenoriaethau pawb ar gyfer trafndiaeth yn y rhanbarth. Rydyn ni hefyd wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall sut y dylai'r rhwydwaith trafndiaeth esblygu i ddiwallu eu hanghenion a'u gofynion. Defnyddiwyd yr holl wybodaeth i helpu i lunio'r cynllun drafft.

### Yr wybodaeth a ddaeth i law

Mae angen i fysiau a threnau gynnig gwasanaeth o ansawdd gwell os ydyn nhw am ddarparu dewis amgen go iawn yn lle teithio mewn car.

Dylai gwasanaethau trafndiaeth fod yn fwy cysylltiedig.

Mae angen opsiynau trafndiaeth mwy ymarferol ar gyfer ardaloedd gwledig.

Dylai datblygiad newydd gael ei leoli a'i gefnogi'n briodol gan drafndiaeth o ansawdd da.

Dylid cynnal ffyrdd, llwybrau troed a llwybrau beicio yn well.

Nid yw cerdded a beicio bob amser yn ymarferol i bawb nac ym mhob ardal, ac mae'r car yn parhau i fod yn bwysig i rai.

### Sut mae'r cynllun drafft yn mynd i'r afael â hyn

Mae hon yn thema allweddol ac mae'r cynllun yn cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sy'n ddibynadwy, yn effeithlon, yn gweithredu ar adegau cyfleus, yn gwasanaethu lleoliadau priodol, ac sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn ddiogel.

Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwneud teithiau, lle mae mwy nag un modd o deithio, yn llawer haws.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu opsiynau trafndiaeth nad ydyn nhw'n cynnwys ceir, megis trafndiaeth sy'n ymateb i'r galw mewn ardaloedd gwledig, fel rhannau o Sir Benfro.

Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymadau i weithio gyda chynllunwyr a datblygwyr i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu gwasanaethu'n dda.


Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal llwybrau troed, llwybrau beicio a ffyrdd.

Mae'r cynllun yn cydnabod yr angen i bawb gael dewis o ddulliau teithio.

# Cyflawni Polisi Cenedlaethol yn Rhanbarthol

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar y tair prif flaenoriaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

Ar gyfer pob blaenoriaeth mae nod rhanbarthol a set o amcanion rhanbarthol – mae'r rhain yn cyfleu ein huchelgais cyffredinol ar gyfer ein hardal. Wedyn, mae cyfres o bolisïau yn esbonio beth fyddwn ni'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf er mwyn cyflawni hyn.



Bydd y tudalennau canlynol yn darparu crynodeb o bob polisi. Yn y ddogfen ddrafft, mae pob polisi yn cael ei esbonio'n fanylach. Mae gan bob polisi nifer o is-bolisïau hefyd. Gweler y ddogfen lawn am fanylion llawn.

## Polisiau i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Blaenoriaeth 1

<b>Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Blaenoriaeth 1</b>	<b>Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio</b>
<b>Nod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b>	Gwella cysylltedd ffisegol drwy wella seilwaith teithio llesol i wasanaethau lleol.
<b>Amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b>	AMCAN 1: Gwella'r seilwaith teithio llesol i wasanaethau lleol yn y lle cyntaf. Lle nad yw hyn yn ymarferol, galluogi preswylwyr i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.
	AMCAN 2: Cael system drafnidiaeth sy'n cefnogi twf a datblygiad gweithgarwch economaidd cynaliadwy yn y rhanbarth.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r nodau a'r amcanion sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth 1 y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys pedwar polisi. Dyma grynodedb:



**Mae Polisi 1** yn canolbwyntio ar leihau'r angen i deithio drwy sicrhau bod gwasanaethau tai, addysg, cyflogaeth, gofal iechyd, manwerthu a hamdden wedi'u lleoli lle mae cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy, a sicrhau bod gan bawb fynediad at fand eang cyflym iawn.



**Nod Polisi 2** yw sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn addas i'r diben ac yn hygyrch i bawb, gyda gwell gwybodaeth, tocynnau symlach a gwell cyfleoedd i gyfnwid rhwng dulliau a gwasanaethau. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu datrysiadau trafnidiaeth arloesol mewn ardaloedd lle nad oes fawr ddim darpariaeth trafnidiaeth ar hyn o bryd, os o gwbl.



**Nod Polisi 3** yw sicrhau bod y system drafnidiaeth yn galluogi twf economaidd ac yn cefnogi bywiogrwydd economaidd. Mae'n canolbwyntio ar wella trafnidiaeth gynaliadwy i ganol trefi a safleoedd cyflogaeth, a sicrhau bod amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus yn addas i weithwyr.



**Mae Polisi 4** yn tynnu sylw at yr angen i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd fod yn sail i Gynlluniau Datblygu a dylanwadu ar gynllunio defnydd tir fel bod datblygiadau wedi'u lleoli'n briodol mewn lleoliadau hygyrch.

## Polisiau i gyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Cymru – Blaenoriaeth 2

<p><b>Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Blaenoriaeth 2</b></p>	<p><b>Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon</b></p>
<p><b>Nod y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol</b></p>	<p>Symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat at ddulliau teithio mwy cynaliadwy drwy welliannau i wasanaethau a seilwaith.</p>
<p><b>Amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b></p>	<p>AMCAN 3: Cael system drafnidiaeth sy'n cydnabod yr hierarchaeth o ddulliau teithio a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sydd fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cerdded a beicio (y flaenoriaeth uchaf)</li> <li>2. Trafnidiaeth gyhoeddus</li> <li>3. Cerbydau allyriadau isel iawn</li> <li>4. Cerbydau modur preifat (y flaenoriaeth isaf)</li> </ol>
	<p>AMCAN 4: Cael system drafnidiaeth sy'n cydnabod cymunedau amrywiol y rhanbarth a'u hanghenion trafndiaeth amrywiol.</p>

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r nodau a'r amcanion sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth 2 y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys 12 polisi. Dyma grynodedb:



**Mae Polisi 5** yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan gymunedau gwledig gysylltiadau â gwasanaethau bysiau a threnau neu wasanaethau cymunedol neu wasanaethau sy'n ymateb i'r galw.



**Mae Polisi 6** yn cydnabod yr angen i'r system drafnidiaeth adlewyrchu anghenion unigryw cymunedau ar draws De-orllewin Cymru, er enghraifft sicrhau hygyrchedd a darparu cysylltiadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ganolfannau diwylliannol lleol.



**Mae Polisi 7** yn sicrhau y bydd dewisiadau dulliau cynaliadwy fel cerdded, beicio, bysiau a threnau yn cael eu gwella fel dewis diogel, hygyrch, dibynadwy, fforddiadwy, cystadleuol a chyfleus ar gyfer teithio o ddydd i ddydd.



**Mae Polisi 8** yn cydnabod yr angen am weithredu wedi'i dargedu tuag at ddatgarboneiddio'r system drafnidiaeth, ac am asesu a lleihau effaith amgylcheddol ymyriadau trafndiaeth newydd yn llawn.

## Polisiau i gyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Cymru – Blaenoriaeth 2 (Parhad)



**Nod Polisi 9** yw sicrhau mai teithio llesol yw'r dewis cyntaf ar gyfer teithiau lleol a sicrhau bod cerdded neu feicio yn opsiwn realistig ar gyfer y rhan gyntaf a'r olaf o deithiau hirach.



**Mae Polisi 10** yn cydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd ac i wella amserlenni ac amllder gwasanaethau a chysylltiadau rhwng gwasanaethau bysiau a threnau.



**Mae Polisi 11** yn annog datblygu datrysiadau trafndiaeth gymunedol a bysiau arloesol, gan gynnwys gwell gwasanaethau, gwybodaeth am docynnau ac amserlenni, mesurau blaenoriaeth i fysiau a defnyddio cerbydau glân.



**Mae Polisi 12** yn canolbwyntio ar hwyluso'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a sero net, gan gynnwys darparu mwy o gyfleusterau gwefru cerbydau trydan a throsglwyddo fflyd y sector cyhoeddus i gerbydau trydan neu hydrogen.



**Mae Polisi 13** yn cydnabod yr angen i gynnal rhwydwaith ffyrdd sy'n ddiogel, yn gyfleus ac yn addas i'r diben. I gynnwys buddsoddi mewn ardaloedd lle gellir gwella diogelwch ar y ffyrdd neu leihau'r pwysau ar y rhwydwaith priffyrdd a rheoli parcio.



**Mae Polisi 14** yn annog dosbarthu nwyddau'n fwy cynaliadwy ac effeithiol, drwy'r rhanbarth ac i'n porthladdoedd, gan gynnwys ar ffyrdd, dŵr a rheilffyrdd, er mwyn lleihau'r effaith ar gymunedau.



**Mae Polisi 15** yn annog mynediad da i feysydd awyr rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig trwy drafnidiaeth gyhoeddus.



**Mae Polisi 16** yn cydnabod yr angen i gynnal a chadw ein seilwaith trafndiaeth, gan gynnwys y rhwydwaith ffyrdd a'r llwybrau ar gyfer cerdded a beicio.



## Polisiau i gyflawni Strategaeth Trafnidiaeth Cymru – Blaenoriaeth 3

<b>Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Blaenoriaeth 3</b>	<b>Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy</b>
<b>Nod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b>	Galluogi ein preswylwyr i newid eu hymddygiad teithio i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel.
<b>Amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</b>	AMCAN 5: Gwneud trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy hygyrch, deniadol a fforddiadwy.
	AMCAN 6: Hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r nodau a'r amcanion sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth 3 y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys pump polisi. Dyma grynodedb:



**Mae Polisi 17** yn nodi uchelgais i drafnidiaeth gyhoeddus fod ar gael, yn ddeniadol, yn hygyrch, yn fforddiadwy, yn ddiogel, yn hawdd ei defnyddio ac yn diwallu anghenion pob teithiwr, gan gynnwys pobl ag anawsterau iechyd corfforol neu synhwyraidd.



**Mae Polisi 18** yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth am amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus yn hawdd i bawb ei deall, gan gynnwys sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal.



**Mae Polisi 19** yn annog defnyddio technoleg i fonitro'r rhwydwaith trafnidiaeth, gan gynnwys rheoli llif traffig a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr.



**Mae Polisi 20** yn hybu buddsoddiad mewn mentrau, ymgyrchoedd a hyfforddiant sy'n annog newid ymddygiad cadarnhaol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy.



**Mae Polisi 21** yn canolbwyntio ar sicrhau bod y system drafnidiaeth yn darparu ar gyfer twristiaeth ac yn diwallu anghenion ymwelwyr. Mae'n annog datblygu cynlluniau teithio i helpu pobl i ddefnyddio dulliau cynaliadwy i gael mynediad at ddigwyddiadau rhanbarthol mawr.

## Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft

Bydd y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer cyllid a chyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Cyflawni yn dal i gael ei ddatblygu. Mae rhestr gychwynnol o gynlluniau trafniadaeth, prosiectau neu astudiaethau sy'n cael eu hystyried fel blaenoriaethau posibl, wedi'i chynnwys yn Atodiad 6 y cynllun drafft. Mae llawer o'r eitemau a restrir yn dod o strategaethau neu gynlluniau eraill y cytunwyd arnyn nhw. Felly mae'r rhestr yn cyfuno holl flaenoriaethau'r rhanbarth mewn un Cynllun Cyflawni cyffredinol.

Mae'r cynlluniau ar y rhestr gychwynnol wedi'u dewis oherwydd bod ganddyn nhw botensial i gyflawni'r amcanion trafniadaeth rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r rhestr yn cynnwys ymyriadau ar draws y rhanbarth yn ogystal â phrosiectau penodol ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol.

Mae'r rhestr gychwynnol yn cynnwys:



Gwelliannau i'w gwneud hi'n haws cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau lleol ac i hyrwyddo dewis cynaliadwy



Gwelliannau i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol



Cynlluniau aml-ddull, gan gynnwys gwelliannau i'w gwneud hi'n haws teithio gan ddefnyddio mwy nag un modd o deithio



Cynlluniau i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel, yn gyfleus ac yn addas i'r diben



Gwelliannau i sicrhau y gall y rhwydwaith trafniadaeth ymdopi'n well â'r hinsawdd a llifogydd



Cynlluniau i annog trawsnewid i danwydd glanach

Mae'r cynlluniau i gyd yn bethau y mae gan yr awdurdodau lleol y pwerau i'w cyflawni, yn amodol ar gyllid. Mae rhestr ar wahân o ymyriadau sy'n hanfodol bwysig i'r rhanbarth, ond mae cyfrifoldeb eraill (megis gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd) hefyd wedi'i gynnwys, ond byddai'r rhain yn cael eu hariannu ar wahân.

Bydd y rhestr gychwynnol yn cael ei hasesu a'i blaenoriaethu ymhellach dros y misoedd nesaf – mae'r broses ar gyfer hyn yn cael ei hesbonio yn Atodiad 5.

Bydd y Cynllun Cyflawni terfynol yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid trafniadaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf 2025–2030.

## Arfarniad Effaith Integredig Drafft


Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Integredig i gefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn dwyn ynghyd nifer o brosesau asesu gan gynnwys Arfarniad Llesiant Integredig, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg.



Pwrpas yr Asesiad Effaith Integredig yw asesu a deall effeithiau posibl y cynllun ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac edrych ar sut y bydd y cynllun yn cyfrannu at ganlyniadau eraill, megis uchelgeisiau sero net, cydraddoldebau, ac effeithiau ar y Gymraeg.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi bod yn broses ailadroddol sydd wedi bod yn mynd rhagddi yn ystod cam drafftio'r cynllun. Defnyddiwyd asesiadau interim i wella'r polisïau fel eu bod nhw'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni'r holl amcanion ehangach.

Bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal wrth i'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei fireinio. Cyhoeddir yr Asesiad Effaith Integredig fel dogfen ar wahân.

## Camau Nesaf





Am fwy o wybodaeth gweler  
[www.cjcsouthwest.wales/ymgyngoriad2025](http://www.cjcsouthwest.wales/ymgyngoriad2025)

Neu, cysylltwch â ni yn: [trafnidiaethrhanbarthol@abertawe.gov.uk](mailto:trafnidiaethrhanbarthol@abertawe.gov.uk)